



Ein cyf/Our ref MA-JH-3827/21

Huw Irranca-Davies AS  
Cadeirydd  
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

12 Tachwedd 2021

Annwyl Huw,

Diolch am adroddiad y Pwyllgor ynglŷn â'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a'r Llysoedd, a osodwyd ar 28 Mai.

Nodaf y ddau argymhelliad a restrwyd gennych ac rwyf wedi ymateb iddynt isod:

**Argymhelliad 1:** Dylai'r Gweinidog, cyn dadl y Senedd ar y cynnig cydsyniad perthnasol, roi diweddariad i'w llythyr ar 28 Medi 2021 a chynghori a bydd gwelliant yn cael ei osod i'r Bil sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn arfer pwerau o dan gymal 17 a 18 mewn perthynas ag awdurdodau datganoledig Cymreig.

Ymateb – Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol ar 5 Tachwedd. Cyflwynodd y Bil y cymalau Dyletswydd Trais Difrifol, sy'n cynnwys pŵer yng nghymal 17 i'r Ysgrifennydd Gwladol gyfarwyddo cyrff cyhoeddus (gan gynnwys Awdurdodau Cymreig Datganoledig) i gydweithio. Roedd y Bil, fel y'i cyflwynwyd, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn defnyddio'r pŵer cyfarwyddo. Ddydd Mercher 27 Hydref, cytunodd Tŷ'r Arglwyddi ar welliant i gymal 17 sydd nawr yn golygu bod rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol gael cydsyniad Gweinidogion Cymru cyn cyfarwyddo awdurdod Cymreig datganoledig. O ganlyniad i'r gwelliant hwnnw, mae Llywodraeth Cymru nawr yn fodlon gyda lefel yr amddiffyniad a gynigir o ran y rhyngweithio gydag Awdurdodau Cymreig Datganoledig. Felly, mae'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol yn argymhell y dylai'r Senedd roi cydsyniad i'r cymalau sy'n ymwneud â'r Ddyletswydd Trais Difrifol, gan gynnwys cymalau 9 a 18.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

[Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru)  
[Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales](mailto:Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Argymhelliad 2:** Dylai'r Gweinidog egluro pam ei bod hi'n credu bod cymal 43 o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac, os felly, pam y dylai'r Senedd roi ei chydysniad i'r cymal hwnnw.

Ymateb – Camgymeriad gweinyddol oedd cynnwys cymal 43. Dylid bod wedi cynnwys cymal 42 o'r Bil yn ei le gan fod materion diogelu o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ac mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ymdrin â nhw. Bwriadaf gofnodi'r cywiriad pan gynhelir dadl yn y Senedd ar y cynnig perthnasol.

Yr eiddoch,

A handwritten signature in black ink that reads "Jane Hutt". The signature is written in a cursive style with a horizontal line above the first few letters.

**Jane Hutt AS/MS**

Y Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol  
Minister for Social Justice